TYFU CYMRU
GROW WALES

# Putting **Sustainability** at the forefront

To achieve sustainable production, the Welsh horticulture industry must continue to implement innovative solutions to help combat the current environmental emergency. Here is how Tyfu Cymru is aligning with both the FAO's Sustainable Development Goals (SDG) and the Well Being of Future Generations (Wales) Act.

## 5 Key Focus Areas to Achieve the SDGs

The FAO has identified five areas which are key to achieving the SDGs:


1. Increase productivity, employment and value addition in food systems
2. Protect and enhance natural resources
3. Improve livelihoods and foster inclusive economic growth
4. Enhance the resilience of people, communities and ecosystems
5. Adapt governance to the new challenges (FAO, 2018)

## Our 12 Key Themes

The key areas identified by the FAO and Welsh Government are the foundation for the success of the Tyfu Cymru project and are actioned through our 12 key themes.



- Future Proofing
- Water Use
- Resource Efficiency
- Plant Health
- Soil and Land Classification
- Knowledge of Marketplace
- Communication
- Collaboration
- New Tech and Techniques
- Access to Land
- Business Management
- Finance and Funding




**OF ALL OUR TRAINEES RECEIVED TRAINING WITH STRONG ENVIRONMENTAL SUSTAINABILITY FOCUS.**

During 2021, **183** participated in training with a strong environmental sustainability focus, from a total of **310**

## Training and Support

When considering sustainability from environmental, economic and social perspectives **100%** of our training could be considered to have a positive impact upon these areas. During 2021, **41%** of our total amount of training hours had a strong environmental sustainability focus.




## Industry actions

The horticultural industry has a significant role to play to tackle climate change, many growers are already leading the way on sustainability through peat free production, reducing their use of main water, carbon auditing and sequestration, reducing single-use plastics, improving soil health, and reducing the use of agrochemicals; which encourages biodiversity and enhances natural habitats.

## Our commitments

### *Soil health*

Healthy soils support sequestration and storage of carbon. We have delivered webinars sessions on soil health, crop rotations, composting and peat free horticulture.

### *Agronomy advice*

Expert agronomy advice provided to drive up yield, quality, harvesting, storage and pesticide reduction.

### *Upskilling*

Training leading to more effective and efficient growing and business management, including topics such as carbon auditing, waste reduction, local supply chains and efficient water use.

### *Pest and disease*

Our Integrated Pest and Disease Management (IPDM) programme focuses on preventative and curative actions, reducing the industries use and reliance on pesticides. IPDM has many environmental benefits, notably boosting biodiversity.

### *Digital delivery*

Digital delivery of Knowledge Transfer through online knowledge hub, webinars and virtual study tours, reducing need for travel.

### *Peat free*

Peatlands are the world's largest terrestrial carbon sink. As well as featuring within webinars, peat free is an important discussion topic in our Stakeholders Groups and within our Horticulture Leaders Forum.

## Further topics

- Carbon
- Waste
- Local Supply Chains
- Water Saving

Tyfu Cymru actively supports economic resilience, and according to an independent report this support has generated a **return on investment of £2.25 for every £1 spent.** Furthermore, technical advice and support stimulates the use of best practice such as IPDM. The programme supports businesses to increase productivity through a reduction in losses, through implementing an integrated approach to pest and disease management and in doing so protecting and enhancing biodiversity, water quality, and soil health – this will play a key role in tackling climate change and achieving the Welsh Government carbon neutral targets by 2050.

**Details of our latest webinars, resources and guides can be found on our website:**

**www.tyfucymru.co.uk**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhoi **Cynaliadwyedd** ar flaen y gad

Er mwyn sicrhau cynhyrchu cynaliadwy, rhaid i ddiwydiant garddwriaeth Cymru barhau i weithredu atebion arloesol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng amgylcheddol presennol. Dyma sut mae Tyfu Cymru yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r FAO a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## 5 Maes Ffocws Allweddol i Gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae'r FAO wedi nodi pum maes sy'n allweddol i gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy:


1. Cynyddu cynhyrchiant, cyflogaeth ac ychwanegu gwerth mewn systemau bwyd
2. Diogelu a gwella adnoddau dynol
3. Gwella bywoliaeth a meithrin twf economaidd cynhwysol
4. Gwella gwydnwch pobl, cymunedau ac ecosystemau
5. Addasu llywodraethu i'r heriau newydd (FOA, 2018)

## Ein 12 Thema Allweddol

Y meysydd allweddol, a nodwyd gan FAO a Llywodraeth Cymru, yw'r sylfaen ar gyfer llwyddiant prosiect Tyfu Cymru ac fe'u gweithredir drwy ein 12 thema allweddol.



- Diogelu at y Dyfodol
- Defnyddio Dŵr
- Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon
- Iechyd Planhigion
- Dosbarthu Tir a Phridd
- Gwybodaeth am y Farchnad
- Cyfathrebu
- Cydweithio
- Technoleg a Thechnegau Newydd
- Mynediad at Dir
- Rheoli Busnes
- Ariannu a Chyllid





**O'N HOLL HYFFORDDEION HYFFORDDIANT GYDA FFOCWS CRYF AR GYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL.**

Yn ystod 2021, cymerodd **183** ran mewn hyfforddiant gyda ffocws cryf ar gynaliadwyedd, o gyfanswm o **310**

## Hyfforddiant a Chefnogaeth

Wrth ystyried cynaliadwyedd o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gellid ystyried bod **100%** o'n hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar y meysydd hyn. Yn ystod 2021, roedd gan **41%** o gyfanswm ein horiau hyfforddi ffocws cryf ar gynaliadwyedd amgylcheddol.




## Gweithredoedd y diwydiant

Mae gan y diwydiant garddwriaeth ran bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae llawer o dyfwyr eisoes yn arwain y ffordd ar gynaliadwyedd drwy gynhyrchu heb fawn, lleihau eu defnydd o ddŵr y prif gyflenwad, archwilio a dal a storio carbon, lleihau'r defnydd o blastigau untro, gwella iechyd y pridd, a lleihau'r defnydd o agrocemegau; sy'n annog bioamrywiaeth ac yn gwella cynefinoedd naturiol.

## Ein hymrwymiadau

### *Iechyd y pridd*

Mae priddoedd iach yn cefnogi'r broses o ddal a storio carbon. Rydym wedi cyflwyno sesiynau gweminar ar iechyd y pridd, cylchdroi cnydau, compostio a garddwriaeth ddi-fawn.

### *Cyngor Agronomeg*

Cyngor agronomeg arbenigol a ddarperir i gynyddu cynnyrch, ansawdd, cynaeafu, storio a lleihau plaladdwyr.

### *Uwchsgilio*

Hyfforddiant sy'n arwain at dyfu a rheoli busnes yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys pynciau fel archwilio carbon, lleihau gwastraff, cadwyni cyflenwi lleol a defnyddio dŵr yn effeithlon.

### *Di-fawn*

Mawndiroedd yw sinc carbon daearol mwyaf y byd. Yn ogystal â chynnwys gweminarau, mae 'di-fawn' yn bwnc trafod pwysig yn ein Grwpiau Rhanddeiliaid a'r Fforwm Arweinwyr Garddwriaeth.

### *Cyflwyno digidol*

Cyflwyno Trosglwyddo Gwybodaeth yn ddigidol drwy ganolfan wybodaeth ar-lein, gweminarau a theithiau astudio rhithwir, gan leihau'r angen am deithio.

### *Plâu a chlefydau*

Mae ein rhaglen Rheoli Plâu a Chlefydau Integredig (RhPChI) yn canolbwyntio ar gamau ataliol a churadol, gan leihau'r defnydd o blaladdwyr gan ddiwydiannau a'r ddibyniaeth arnyn nhw. Mae gan RhPChI lawer o fanteision amgylcheddol, gan gynnwys rhoi hwb i fioamrywiaeth.

## Further topics

- Carbon
- Gwastraff
- Cadwyni Cyflenwi Lleol
- Defnydd o Ddŵr

Mae Tyfu Cymru yn cefnogi gwydnwch economaidd, ac yn ôl adroddiad annibynnol, mae'r cymorth hwn wedi **arwain at fuddsoddiad o £2.25 am bob £1 sy'n cael ei gwario**. At hynny, mae cyngor a chymorth technegol yn ysgogi'r defnydd o arfer gorau fel RhPChL. Mae'r rhaglen yn cefnogi busnesau i gynyddu cynhyrchiant drwy leihau colledion, drwy weithredu dull integredig o reoli plâu a chlefydau, a thrwy wneud hynny, diogelu a gwella bioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac iechyd y pridd – bydd hyn yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd a chyflawni targedau carbon niwtral Llywodraeth Cymru erbyn 2050.

**Mae manylion ein gweminarau, adnoddau a chanllawiau diweddaraf i'w gweld ar ein gwefan:**

**www.tyfucymru.co.uk**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government